# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 150(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(30 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**[Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**David Rees (Aberafan):** Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y caiff y cyhoeddiad wythnos ddiwethaf ynghylch uno TATA steel a Thyssenkrupp ar y diwydiant dur yng Nghymru?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addsyg:**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Caiff y cwestiwn isod ei ateb gan: Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.**

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): Beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r sylwadau a wnaed gan berchennog Trago Mills fod arwyddion Cymraeg yn annibendod gweledol?

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau adrefnu llywodraeth leol yn dilyn ei sylwadau yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 29 Mehefin 2018?

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am yr achosion diweddar o danau gwair sydd wedi effeithio ar gymunedau ledled Cymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

(60 munud)

**NDM6756** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Iechyd Emosiynol ac Iechyd Medwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ebrill 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin 2018.

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Carillion a Capita

(60 munud)

**NDM6740 Lee Waters (Llanelli)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad ymchwiliad ar y cyd Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Phwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin ar y gwersi i'w dysgu yn sgil methiant Carillion.

2. Yn cydnabod adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar sut y mae GIG Lloegr yn rheoli'r contract gwasanaethau cymorth gofal sylfaenol gyda Capita.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi dadansoddiad o'r gwersi i Gymru o'r ddau adroddiad hyn.

Tŷ'r Cyffredin - Y Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol / Y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau - Carillion (Saesneg yn unig)

Swyddfa Archwilio Cymru - 'NHS England's management of the primary care support services contract with Capita' (Saesneg yn unig)

**Cyd-gyflwynwyr**

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**
**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**
**Mick Antoniw (Pontypridd)**
**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**
**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Vikki Howells (Cwm Cynon)**

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig - Da byw yn yr ucheldir - Gohiriwyd tan 19 Medi

**NDM6757 Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylid dychwelyd defaid, y cyfeiriwyd atynt yn y gorffennol fel cynrhon gwlanog, i fryniau Cymru.

2. Yn gresynu at y ffaith bod y penderfyniad i ddileu hawliau pori ar ucheldiroedd Cymru wedi arwain at ddifrod enfawr i ucheldiroedd Cymru, bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn gyffredinol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gael gwared ar unrhyw gymhellion sy'n annog symud anifeiliaid byw o ardaloedd yr ucheldir ac, yn lle hynny, darparu cymhellion i ailboblogi'r ardaloedd hynny ag anifeiliaid byw.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi pwysigrwydd ffermio mynydd i gymunedau gwledig a'r economi wledig.

2. Yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu ffermwyr mynydd yng Nghymru ar gyfer y dyfodol, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad 'The Future of the Welsh Uplands after the Common Agricultural Policy'.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu polisi ar gyfer ffermio mynydd yng Nghymru sy'n gwarchod ei gynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.

The Future of the Welsh Uplands after the Common Agricultural Policy (Saesneg yn unig)

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6758** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru: ystyr ystadegau yn ymarferol; rôl Llywodraeth Cymru; ac effaith Brexit ar yr agenda tlodi plant

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.02, Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2018